RHWYDWAITH TAI'N GYNTAF CYMRU

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

# TAI YN GYNTAF CYMRU

## EGWYDDORION

### TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA



# CYFLWYNIAD

**Dull seiliedig ar adferiad o roi terfyn ar ddigartrefedd yw Tai yn Gyntaf; mae'n ffocysu ar symud pobl ddigartref i mewn i gartref sefydlog, tra hefyd yn darparu cymorth person-ganolog, aml-asiantaeth, am gyhyd ag y bo angen amdano. Mae'r model wedi bod yn fwyaf llwyddiannus gyda phobl a chanddynt anghenion cymorth cronig a chymhleth, lle mae'r modelau traddodiadol o gymorth wedi methu.**

Datblygwyd Tai yn Gyntaf yn Efrog Newydd yn yr 1990au, a hynny'n bennaf gan y seicolegydd cymunedol Sam Tsemberis. Darganfu Tsemberis fod darparu tai ar gyfer pobl fregus oedd yn byw ar  stryd, heb y math o ragamodau a gysylltir fel arfer â gwasanaethau digartrefedd, yn cael effaith hynod lesol ar eu bywydau.

Dros y blynyddoedd, mae tystiolaeth fewnol gadarn wedi profi pa mor effeithiol y gall Tai yn Gyntaf fod, gyda'r model wedi'i gyflwyno mewn nifer o wledydd yn Ewrop. Roedd y Ffindir yn un o'r gwledydd cyntaf i fabwysiadu Tai yn Gyntaf, gyda'r model yn cael ei ganmol fel ffactor allweddol yn y dasg o ostwng lefel digartrefedd yn sylweddol yn y wlad Lychlynnaidd honno.

Seilir Tai yn Gyntaf ar set o egwyddorion sy'n tanategu'r model ac yn ei wneud mor effeithiol, gan arwain at lefel gref o gynnal tenantiaeth yn rhyngwladol, elfen a brofwyd dros sawl degawd. Trwy weithredu Tai yn Gyntaf yng Nghymru mewn modd effeithiol, mae gennym gyfle go iawn i helpu pobl i gael mynediad at, a chynnal, llety dros y tymor hir – pobl sydd, mewn rhai achosion, wedi treulio blynyddoedd yn cysgu ar y stryd ac yn byw gyda phroblemau cyd-gysylltiedig yn ymwneud â thrawma, iechyd meddwl a/neu'r defnydd o sylweddau.

Yn 2018, aeth Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru – grŵp o randdeiliaid a chanddynt rolau gwahanol yn y gwaith o gyflenwi'r model yn lleol ac yn genedlaethol – ati i ddatblygu set o egwyddorion a fwriadwyd yn benodol ar gyfer Cymru. Seiliwyd y rhain ar yr egwyddorion a sefydlwyd gan Homeless Link a FEANTSA, ond gan adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig. Cafodd egwyddorion ychwanegol eu cynnwys hefyd, yn ffocysu ar bartneriaethau aml-asiantaeth a dulliau seicolegol-wybodus o weithio.

Mae'r set hon o egwyddorion wedi rhoi gwasanaeth da i Gymru. Bellach, mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol ryw lefel o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf, ac ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon mae'r cyfartaledd cynnal tenantiaethau ledled y wlad tua 91%. Mae nifer o brosiectau wedi mynd drwy'r broses o achredu, sydd hefyd yn unigryw i Gymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i ragor o gynlluniau Tai yn Gyntaf gael eu datblygu a'u cyflenwi, mae ein dealltwriaeth o'r modd y mae'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol wedi esblygu. Rydym wedi cael trafodaethau hynod ddefnyddiol o fewn y Rhwydwaith wrth i brosiectau aeddfedu, ac wrth i heriau godi, ac mae dehongliad wedi bod yn fater i'w drafod. Yn ogystal, mae'r amgylchedd allanol a'r cyd-destun polisi y mae Tai yn Gyntaf yn gweithredu ynddynt wedi newid yn sylweddol yn ystod ac ar ôl y pandemig.

Yn 2023, cytunodd y Rhwydwaith i adolygu egwyddorion Cymru, gan sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i roi ystyriaeth ofalus a manwl i bob egwyddor yn ei thro, yn ogystal ag ymgysylltu â phobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu eu sylwadau, eu profiad a'u harbenigedd i'r broses hon.

Mae'r egwyddorion diwygiedig yn cael eu gosod allan yn y ddogfen hon, ynghyd ag arweiniad ar sgorio hunanwerthuso, dyfyniadau oddi wrth bobl a chanddynt brofiad byw, tystiolaeth a gâi ei hystyried fel rhan o'r broses achredu, a mewnwelediad i'r ystyriaethau a'r arfer da a gafodd ddylanwad ar yr egwyddorion.

## YR HAWL I GARTREF O ANSAWDD DA

Mae gan bobl hawl i gartref sy'n fforddiadwy, diogel, cyfanheddol, addas yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a chanddo fynediad at wasanaethau. Caiff pobl eu blaenoriaethu ar gyfer tai, a'u helpu i ddod o hyd i gartref cyn gynted ag y bo modd. Nid yw mynediad at dai yn amodol, mae gan bobl ddewis o ran ble maen nhw'n byw, ac mae dewisiadau tai yn cael eu gwasgaru dros gymunedau.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Nid yw tai yn fforddiadwy, diogel, cyfanheddol a digonol. Mae'r dewis o lety yn gyfyng, nid oes gan bobl ddewis o ran ble maen nhw'n byw, a/neu mae cleientiaid Tai yn Gyntaf yn cael eu gosod gyda'i gilydd mewn un adeilad neu grŵp o adeiladau. Er mwyn cael mynediad at lety, rhaid i bobl ymrwymo i gael triniaeth, ymgysylltu â chymorth, neu newid eu ffordd o fyw.

**3** Mae tai yn fforddiadwy, addas, diogel, cyfanheddol a digonol. Caiff y cartref cywir ei ddarparu cyn gynted ag y bo modd. Mae'r dewisiadau llety wedi eu gwasgaru ledled y gymuned, a'u lleoli yn ôl dewis y cleient. Gall pobl gael mynediad at lety waeth beth yw eu hamgylchiadau a'u hymgysylltiad – nawr neu yn y gorffennol – â thriniaeth neu gymorth.

"Dw i'n credu y dylai pobl gael cymorth a llety ar unwaith, heb orfod aros. Dywedwyd wrtha i y byddai raid i mi aros am 15 mlynedd a meddyliais waw, does gen i ddim cartref. Ond wedyn tynnodd Tai yn Gyntaf fi oddi ar y strydoedd, rhoi fflat hyfryd i mi, a helpu gyda phopeth roedd arna i ei angen. Tai yn Gyntaf. WAW. Newidiodd fy mywyd yn llwyr. Does dim digon o le yn y bydysawd i ffitio digon o negeseuon o ddiolch i Tai yn Gyntaf."

- Cleient, yn amlygu gwerth dod o hyd i'r cartref cywir cyn gynted ag y bo modd

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau manyleb gwasanaeth
- Map yn dangos dosbarthiad daearyddol yr eiddo sydd ar gael neu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Tai yn Gyntaf
- Ceisiadau/atgyfeiriadau yn dangos y dewis o eiddo a'r ardal ddaearyddol
- Negeseuon ebost yn trafod dewis y cleient ynghylch eiddo ac ardal ddaearyddol
- Negeseuon ebost yn trafod safon eiddo
- Negeseuon ebost yn trafod atgyweiriadau neu waith a wnaed mewn eiddo
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Seilir Tai yn Gyntaf ar y syniad fod person yn fwy tebygol o lwyddo yn y llety cywir – mewn lleoliad sy'n teimlo fel cartref. Dylid herio'r syniad y dylai person fod yn ddiolchgar am lety o unrhyw fath neu o unrhyw ansawdd.

### Safon ac ansawdd y llety

Tra bod yna ofynion cyfreithiol ynghylch safon eiddo, mae Tai yn Gyntaf wedi ei seilio o gwmpas y syniad bod raid i lety person deimlo fel eu cartref er mwyn iddynt cael y siawns orau o gyflawni eu nodau a'u dyheadau. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi pwysleisio na ddylai'r hawl i gael cartref digonol gael ei dehongli mewn modd cul, a bod raid iddo gwrdd â'r meini prawf o fod yn ddiogel, fforddiadwy, cyfanheddol, hygyrch, addas yn ddiwylliannol, ac â mynediad at wasanaethau ac isadeiledd. Felly, dylai llety a ddarperir drwy Tai yn Gyntaf gyd-fynd â'r diffiniad hwn, er y gallai dewis y cleient ddiystyru hyn. Un ystyriaeth arbennig ar gyfer Cymru yw bod y llety'n tueddu i fod yn hŷn nag mewn rhannau eraill o'r DU, a gallai felly fod mewn mwy o risg o fod o safon gwael. O ganlyniad, mae'n bwysicach fyth treulio amser yn sicrhau bod y llety'n addas.

### Llety gwasgarog

Dylai Tai yn Gyntaf yng Nghymru ddarparu llety'n seiliedig ar fodel gwasgaru, nid ar fodel crynhoi. Hynny yw, ni ddylid cyfyngu dewisiadau o lety i un adeilad neu grŵp o adeiladau'n unig. Mae hyn yn allweddol i ddewis y cleient ac yn sicrhau hefyd y gall pobl ffurfio perthnasoedd newydd mewn cymunedau cymysg. I ryw raddau, gall dewis y cleient drechu hyn mewn sefyllfa ymarferol – er enghraifft, petai dau gleient Tai yn Gyntaf yn dymuno byw gyda'i gilydd, dylid parchu'r dewis hwnnw. Yn yr un modd, gallai cleient Tai yn Gyntaf ddymuno byw mewn ardal lle mae cleientiaid eraill eisoes yn byw; mae hyn hefyd yn cael ei reoli gan ddewis, ac yn dderbyniol. Fodd bynnag, ni ddylid cyfyngu'r dewisiadau i gleientiaid i un adeilad yn unig. Byddai hyn yn gwanhau'r model Tai yn Gyntaf ac yn peryglu ei effeithiolrwydd, ac o ganlyniad ni châi ei ystyried fel Tai yn Gyntaf.

### Diffyg mandad i ymgysylltu neu fod yn 'barod am denantiaeth'

Elfen allweddol arall o Tai yn Gyntaf yw nad oes angen i gleientiaid ymrwymo i fod yn 'barod am denantiaeth', rhoi'r gorau i gymryd sylweddau, neu ymgysylltu â thriniaeth. Yn syml, does ond rhaid iddynt fynegi diddordeb mewn cael cartref ac, o bosib, cadw mewn cysylltiad â darparwr cymorth, fel arfer ar drefniant wythnosol. Tra bod cymorth dwys yn cael ei gynnig – a gall hwnnw'n aml gael effeithiau hynod fuddiol – nid yw'n orfodol.

### Cyflymder

Po gyflymaf y gellir darparu'r cartref cywir i berson, po gyntaf y gallant setlo i mewn i denantiaeth Tai yn Gyntaf, a dechrau penderfynu beth yw eu nodau cyn gweithio i'w cyflawni. A chymryd y prinder cyfredol o lety sydd ar gael ar gyfer pobl sengl, gall gymryd amser i ddod o hyd i eiddo addas. Wrth weithio yn y cyd-destun hwn, dylid parhau i ddod o hyd i gartrefi cyn gynted ag y bo modd. Mae trafodaethau gonest a thryloyw rhwng gweithwyr cymorth a chleientiaid, neu ddarpar gleientiaid, yn holl bwysig yma, fel bod cleientiaid yn gallu dewis drostynt eu hunain y cydbwysedd rhwng cyflymder ac addasrwydd yn yr un modd ag y byddai unrhyw un arall yn ei wneud wrth symud cartref. Po hiraf y bydd raid i rywun aros i gael llety, y mwyaf anodd y gall fod i gleientiaid ymddiried yn y bobl broffesiynol ac yn y broses yn gyffredinol.

## CYMORTH HYBLYG CYHYD AG Y BO ANGEN AMDANO

Nid yw cymorth yn gyfyngedig o ran amser, a chydnabyddir fod adferiad yn cymryd amser ac yn amrywio yn ôl anghenion a phrofiadau pobl. Mae hyblygrwydd yn holl bwysig, gan y bydd amledd a dwysedd y cymorth yn amrywio yn ystod y cyfnod y bydd pobl yn ymgysylltu ag ef. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymo i lwyth gwaith bychan, er mwyn sicrhau bod staff yn gallu darparu cymorth sy'n drylwyr a pherson-ganolog.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Mae cymorth yn cael ei reoli gan amser, ac mae pen draw iddo. Mae cymorth yn anhyblyg ac ni ellir ei gynyddu na'i leihau yn unol ag anghenion cymorth y cleient. Caiff cymorth ei gomisiynu ar sail caeth yn ôl yr awr. Nid yw llwyth achosion yn cael eu rheoli, a gall aelodau unigol o'r staff weithio'n rheolaidd gyda nifer anaddas o fawr o bobl – mor fawr yn wir nes bod y llwyth achosion yn effeithio ar y cymorth dwys, person-ganolog, sydd wrth wraidd Tai yn Gyntaf.

**3** Mae staff yn ymrwymo i ddarparu cymorth parhaus nad yw'n cael ei gyfyngu gan amser. Gall y cymorth gynyddu neu leihau yn ôl y gofyn, a gellir cael ail fynediad ato pan fo angen. Nid yw cymorth yn cael ei gomisiynu ar drefniant yn ôl yr awr. Caiff llwyth achosion gweithwyr cymorth unigol eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod cleientiaid yn derbyn y cymorth mae arnynt ei angen, tra bod lles staff hefyd yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Ni ddylai unrhyw weithiwr cymorth gael llwyth achosion sy'n rhy drwm iddynt allu ymdopi ag ef, a dylai llwythi achosion fod yn ddigon bychan i'w galluogi i weithio mewn dull cyson a rhagweithiol, wedi'i ffocysu ar anghenion y person.

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Dogfennau comisiynu
- Swydd-ddisgrifiadau
- Tystiolaeth o drafodaethau gyda chyrff cyllido/staff comisiynu
- Nodiadau o gyfarfodydd grŵp llywio
- Dogfennau atgyfeirio
- Dogfennau ynghylch dosrannu cleientiaid rhwng gweithwyr cymorth
- Negeseuon ebost yn rhoi tystiolaeth o lwyth achosion gweithwyr cymorth
- Polisïau neu brosesau symud-ymlaen/graddio/hunedd
- Cynlluniau cymorth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

> "Mae fy ngweithwyr cymorth yn aml yn gweld drysau'n cau yn eu hwynebau, ond maen nhw'n parhau i eiriol drosof i."
>
> - Cleient Tai yn Gyntaf, yn trafod pa mor gryf yw eu perthynas gyda'u gweithwyr cymorth

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Mae Tai yn Gyntaf yn dibynnu ar gymorth nad yw'n cael ei gyfyngu gan amser, ac sy'n hyblyg ac wedi ei siapio i gyd-fynd ag anghenion y cleient. Dylai cynlluniau cymorth edrych yn bur wahanol, yn dibynnu ar brofiadau a chyd-destun y cleient. Wedi dweud hynny, dylai cymorth gynyddu neu leihau mewn cryfder, yn seiliedig ar anghenion y cleient, ac yna ei 'ailweithredu' o lefelau is os mai dyna sydd ar y cleient ei angen. Mae'n bosibl iawn bod cleientiaid Tai yn Gyntaf wedi cael eu gadael i lawr droeon gan y sectorau tai a digartrefedd; efallai y bydd angen eu sicrhau y bydd cymorth yn parhau am gyhyd ag y bo angen amdano, er mwyn ffurfio perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth.

Yng nghyd-destun y diffyg cyfyngiadau ar amser, mae yna densiwn naturiol rhwng y model a'r modd y tueddir i ddyfarnu cyllid. Yn aml, caiff cyllid ei ddyfarnu i ddarparwyr cymorth ar sail terfyn amser – weithiau'n flynyddol. Oherwydd hynny, mae yna anhawster cynhenid wrth geisio cadarnhau nad yw cymorth yn cael ei gyfyngu gan amser.

Mae'r cyd-destun yn bwysig yma – ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r model Tai yn Gyntaf; gwelir hyn fel rhan allweddol o'r symudiad cyson tuag at ddull o ailgartrefu cyflym dan arweiniad tai, gyda Tai yn Gyntaf ar 'ben' mwyaf dwys y sbectrwm. Mae'r holl brif bleidiau gwleidyddol yn y Senedd hefyd wedi cymeradwyo Tai yn Gyntaf. Oherwydd hynny, tra bod amseru'r cyllido yn dal i fod yn berthnasol – ac yn debygol o barhau felly – ni ddylid ystyried bod sefyllfa Tai yn Gyntaf yng Nghymru yn fregus. Dylai'r ystadegadau cynnal tenantiaeth a gyhoeddwyd hyd yma (ar adeg ysgrifennu hwn, mae 91% o gleientiaid Tai yn Gyntaf wedi cynnal eu tenantiaethau) barhau i ddangos bod y model yn llwyddiannus, a dylai hynny gryfhau ei sefyllfa. Dylai swyddogion y llywodraeth, ar lefel leol a chenedlaethol, sicrhau bod absenoldeb terfynau amser yn gwbl glir mewn unrhyw ddogfennaeth berthnasol, a gall staff prosiectau ddefnyddio'r math yma o ddatganiadau fel tystiolaeth i'w dangos i unrhyw gleientiaid a allai fod yn pryderu y bydd y cymorth yn dod i ben.

Ar lefel weithredol, dylai staff Tai yn Gyntaf ofalu nad ydynt yn ail-drawmateiddio cleientiaid trwy grybwyll mater terfynau amser. Wedi dweud hynny, dylai staff fod yn barod ar gyfer y posibilrwydd y bydd cleientiaid Tai yn Gyntaf – sydd, wrth gwrs, yn unigolion ystyriol, meddylgar a deallus – yn cychwyn y trafodaethau hyn, ac yn dangos diddordeb yn y mater hwn. Ni ddylai staff prosiect ddweud celwydd, nac osgoi cwestiynau, ond yn hytrach dylent ymgysylltu â'r pwnc os yn briodol. Dylai rheolwyr prosiect sicrhau bod staff yn cael eu paratoi i drin y sgyrsiau hyn mewn modd priodol, petaent yn codi.

Wrth i Tai yn Gyntaf aeddfedu, ac wrth i bobl dderbyn cymorth Tai yn Gyntaf am gyfnodau hirach ledled Cymru, mater cynyddol bwysig yw beth sy'n digwydd i'r cymorth a roddir i berson os byddant o'r farn nad oes arnynt bellach mo'i angen. Mae nifer cynyddol o wasanaethau'n defnyddio'r cysyniadau 'hunedd' neu 'gynnal', lle bo rhywun yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r prosiect, a gallent dderbyn cymorth petaent yn credu bod arnynt ei angen, ond mae'r lefel arferol o gymorth sydd ei angen ar y person hwnnw bellach yn isel iawn. Y pwynt allweddol i'w ystyried yw nad oes terfyn amser i Tai yn Gyntaf, a rhaid iddo barhau cyhyd ag y bo ar berson ei angen.

Mae cynnal cymorth, a pharhau i sicrhau bod cymorth ar gael i gleientiaid sy'n ymdopi'n annibynnol, yn rhywbeth y mae angen ei reoli'n ofalus fel rhan o gynllunio adnoddau o fewn pob prosiect unigol. Dylid bob amser roi ystyriaeth i achosion posibl o gynnydd sydyn yn yr angen am gymorth; os cynllunnir yn drylwyr a gofalus, mae'r defnydd o'r cysyniadau 'hunedd' neu 'gynnal' yn ymddangos fel dull synhwyrol o weithio i alluogi twf mewn aeddfedu prosiectau a chydnabod dilyniant y cleientiaid sy'n byw fel rhan o wasanaethau Tai yn Gyntaf.

Mae rhoi llwythi achosion bychan i aelodau unigol o'r staff yn holl bwysig os am gynnal hyblygrwydd. Mewn ymchwil a wnaed yn ystod y cyfnod o ddatblygu'r broses achredu, awgrymwyd na ddylai'r nifer uchaf o gleientiaid a ddosrennir i weithiwr cymorth unigol fod yn uwch na rhwng pump a saith person, yn dibynnu ar faint y gwasanaeth. Fodd bynnag, a chymryd i ystyriaeth y defnydd o restrau hunedd (a allai gynnwys y cleientiaid a grybwyllwyd eisoes, a chanddynt anghenion isel o ran cymorth parhaus), fel y trafodwyd uchod, a'r ffaith y gallai anghenion cymorth cleientiaid unigol amrywio'n sylweddol, nid yw'r ddogfen hon yn gorfodi unrhyw niferoedd penodol o ran llwyth achosion.

Yn lle hynny, dibynnir ar y rheolwyr ym mhob gwasanaeth i sicrhau bod cydbwysedd rhwng argaeledd cymorth a lles y staff, ac nad oes disgwyl i weithwyr cymorth ymdopi â llwyth achosion nad ydynt yn caniatáu iddynt ddarparu cymorth sydd wedi'i ffocysu, yn ddwys, rhagweithiol a pherson-ganolog.

Mewn modelau megis Tai yn Gyntaf, sydd â'r potensial o bara am oes, mae angen i'r gwasanaethau hefyd ystyried trosiant staff ac absenoldeb, a'r effaith y gall hyn ei chael ar gleientiaid o fewn y prosiect. Mae rhai prosiectau, er enghraifft, yn sicrhau bod pob cleient wedi treulio amser gydag o leiaf ddau weithiwr cymorth, fel bod cleientiaid yn teimlo'n ddigon hyderus i ymgysylltu ag eraill yn y tîm ehangach, nid dim ond â'u prif weithiwr cymorth. Sut bynnag y caiff hyn ei reoli, dylid gwneud pob ymdrech i rymuso cleientiaid i ddatblygu hyder ym mhob aelod o'r tîm, ynghyd â chael perthynas dda gyda chynifer ag y bo modd o weithwyr proffesiynol.

## GWAHANU RHEOLI TAI A CHYMORTH

Caiff rheoli tai a darparu cymorth eu cyflenwi'n annibynnol o'i gilydd. Gall gweithwyr cymorth eiriol ar ran cleientiaid ar unrhyw fater yn ymwneud â'u llety. Nid yw tai yn amodol ar ymgysylltu â chymorth, ac mae'r cynnig o gymorth yn parhau os yw pobl yn symud i gartref gwahanol.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Nid oes unrhyw raniad rhwng rheoli tai a chymorth. Darperir rheoli tai a chymorth gan yr un sefydliad, ac mae tenantiaid yn ystyried bod y ddwy swyddogaeth yn gyfnewidiadwy.

**1** Mae yna rywfaint o raniad rhwng y ddarpariaeth rheoli tai a'r ddarpariaeth cymorth. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli tai yn dod o wahanol dimau o fewn yr un sefydliad. Nid yw cleientiaid yn gweld unrhyw wahaniaeth, neu gwahaniaeth bychan yn unig, rhwng y rolau.

**2** Mae rhaniad mwy pendant rhwng yr elfen rheoli tai a'r elfen darparu cymorth. Mae'n bosib y bydd y ddwy elfen yn cael eu cyflenwi gan yr un sefydliad, ond dan gyfarwyddiaethau gwahanol, gydag annibyniaeth ac ymreolaeth y naill oddi wrth y llall. Mae gweithwyr cymorth yn gweithredu fel eiriolwyr dros y cleientiaid, ac nid ydynt ynghlwm â chasglu rhent. Mae cleientiaid yn ystyried bod y rolau hyn yn wahanol. Os bydd tenantiaeth yn dod i ben, bydd cymorth yn parhau i ddod o'r un sefydliad hyd yn oed os yw'r denantiaeth yn symud i landlord gwahanol.

**3** Mae rheoli tai, a chymorth, yn gwbl ar wahân. Cânt eu gweithredu gan wahanol sefydliadau, er y dylai'r ddau fod wedi ymrwymo i Tai yn Gyntaf fel model. Mae cleientiaid yn deall bod y swyddogaeth rheoli tai a'r gwasanaeth cymorth yn gweithredu'n annibynnol o'i gilydd, maent yn teimlo'n hyderus y bydd gweithwyr cymorth yn eiriol drostynt, ac yn gwybod na fydd unrhyw broblemau ynghylch rheoli tai yn effeithio ar y cymorth y byddant yn ei dderbyn.

> *"Rydyn ni'n mynd ben-ben!"*
>
> - Gweithiwr cymorth yn esbonio eu parodrwydd i herio'u cydweithwyr ar ran y cleient.

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau cytundebau lefel gwasanaeth
- Protocol mewnol ar bolisi/cydweithio yn egluro rolau – e.e. yn esbonio'n glir na fyddai un rôl yn dylanwadu'n annheg ar y llall
- Cytundebau lefel gwasanaeth yn rhoi esboniad clir o wahanol rolau'r landlord a'r darparwr cymorth
- Swydd-ddisgrifiadau
- Polisïau perthnasol yn y gwahanol sefydliadau, neu'n rheoli gwahanol dimau
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Mae'r rhaniad rhwg rheoli tai a darparu cymorth yn holl bwysig, gan ei fod yn helpu i sicrhau bod y gweithwyr cymorth y mae cleient Tai yn Gyntaf yn ymgysylltu â hwy bob amser yn gallu gweithredu fel eiriolwr drostynt – gan ffocysu ar eu cefnogi, a chaniatáu i'r cleient fod wrth galon eu cymorth. Os, er enghraifft, y disgwylir i weithiwr cymorth hefyd gasglu rhent gan denant, gallai problemau godi. Mae'n bosibl y byddai cleient yn amharod i drafod materion sensitif – yn cynnwys, efallai, trawma o'r gorffennol – gyda rhywun a fyddai o bosib yn gorfod gweithredu ar faterion megis ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Fan leiaf, dylai gweithwyr cymorth a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli tai, gael rolau amlwg, ac – yn holl bwysig – annibyniaeth ac ymreolaeth oddi wrth ei gilydd. Dylai'r aelodau hyn o'r staff gael yr annibyniaeth a'r ymreolaeth a ddisgwylid petaent yn dod o wahanol sefydliadau, yn ogystal â'r gefnogaeth gan eu rheolwyr i wireddu hyn. Os mai'r un sefydliad sy'n darparu rheoli tai a chymorth fel ei gilydd, dylid gweithredu dull safonol o weithredu – petai tenantiaeth Tai yn Gyntaf yn dod i ben, y byddai'r ddarpariaeth cymorth yn parhau, waeth o ble bynnag y deuai unrhyw lety yn y dyfodol. Dyma fyddai cleientiaid Tai yn Gyntaf yn ei ddisgwyl petaent wedi bod yn ymgysylltu â sefydliadau ar wahân, a dyma y dylent ei ddisgwyl os mai dim ond un sefydliad sy'n gwneud y gwaith. Yn yr un modd, lle bo un sefydliad yn darparu cymorth a rheoli tai, dylid cael rhaniad clir rhwng cynnal a chadw tenantiaeth y cleient, ac ymgysylltiad tenant â chymorth. Unwaith eto, dyma beth a ddisgwylid gan ddau sefydliad ar wahân, felly dylai'r sefyllfa fod yr un fath yn achos dim ond un sefydliad. Er enghraifft, os nad yw cleient yn cael unrhyw broblemau gyda'u tenantiaeth, ond eu bod wedi dewis peidio ag ymgysylltu â chymorth am y tro, ni ddylai hyn arwain at weithredu unrhyw gosb ychwanegol. Yn y pen draw, dylid osgoi canfyddiad y cleient 'ry'ch chi i gyd yr un fath'.

Lle bo'r un sefydliad yn darparu cymorth a rheoli tai, byddai angen iddynt gymryd camau ychwanegol i sicrhau bod cleientiaid yn gweld bod y rolau hyn yn amlwg ac ar wahân, yn enwedig o ran bod y gweithiwr cymorth yn gallu gweithredu'n annibynnol oddi wrth y tîm rheoli tai, ac eiriol ar ran y cleient. Er enghraifft, gallai'r sefydliad gael gwahanol dimau i arwyddo polisi gweithio ar y cyd, sy'n rhoi diffiniad clir o'r gwahanol rolau. Yna gellid darparu dogfen o'r fath yn ystod yr achredu, fel tystiolaeth o lynu at yr egwyddor hon.

Felly, er bod rheoli tai a darparu cymorth, fel ei gilydd, yn rhannau hanfodol o'r model Tai yn Gyntaf, gorau oll po fwyaf ar wahân y maent. Nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd cael perthnasoedd da, gonest, ac effeithiol rhwng aelodau o'r staff yn y ddau faes. Bydd angen i'r aelodau hyn o'r staff gael dealltwriaeth glir o'u rôl, a 'ble maen nhw'n ffitio i mewn' yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf. Ymhellach, rhaid i weithwyr cymorth deimlo y gallant herio'r partner rheoli tai (neu, yn wir, unrhyw un arall) mewn modd adeiladol os nad yw penderfyniadau fel petaent yn cyd-fynd â'r hyn sydd orau i'r cleient.

Mae'n bwysig hefyd fod cynrychiolwyr yr adran rheoli tai yn Tai yn Gyntaf yn cymryd agwedd sensitif, trawma-wybodus at eu gwaith. Dylid nodi hefyd, yn yr un modd nad yw ymgysylltu â chymorth yn orfodol yn Tai yn Gyntaf, bod yr un peth yn berthnasol gydag unrhyw gymorth generig a gynigir gan landlordiaid. Ni ddylai pobl sy'n byw mewn eiddo Tai yn Gyntaf fyth fod dan anfantais, na chael eu cosbi, os nad ydynt yn ymgysylltu'n weithredol â'r ddarpariaeth cymorth neu'r gwasanaeth rheoli tai a gynigir; byddai eithriadau'n cynnwys gwirio offer nwy a gofynion cyfreithiol eraill sy'n orfodol dan ofynion y denantiaeth.

## MAE GAN BOBL DDEWIS A RHEOLAETH

Dylai pobl gael cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros ble maen nhw'n byw a pha fath o dŷ maen nhw'n byw ynddo. Dylent allu rheoli'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn, gan ddewis ble a sut y darperir y cymorth hwnnw. Dylid gwrando ar bobl, a pharchu eu dewisiadau.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Yng nghyd-destun llety, dosrennir un eiddo i berson heb iddynt gael unrhyw ddewis, a/neu mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn gytundeb trwydded. Nid oes gan gleientiaid unrhyw fewnbwn i'r ffordd y caiff eu cymorth ei gyflenwi, nac ar beth mae eu cymorth yn ffocysu.

**1** Gall pobl ddewis eiddo, ond o fewn ardaloedd penodol, neu rhwng eiddo o ansawdd is; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn denantiaeth lawn. Gall cleientiaid wneud rhai penderfyniadau sylfaenol ynghylch eu cymorth.

**2** Gall pobl ddewis eiddo o'r tai sydd ar gael; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn gontract meddiannaeth. Anogir cleientiaid i wneud dewisiadau ynghylch eu cymorth, a chymryd rheolaeth ohono.

**3** Gall pobl ddewis eiddo ar draws pob deiliadaeth, a gallant hefyd wneud cais am i eiddo penodol yn y Sector Rhentu Preifat gael ei ystyried gan ddarparwr cymorth Tai yn Gyntaf; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn gontract meddiannaeth. Caiff cleientiaid eu grymuso i wneud dewisiadau ynghylch eu cymorth, a chymryd rheolaeth ohono.

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Polisïau perthnasol sy'n canolbwyntio ar y cleient
- Nodiadau cyfarfodydd grŵp llywio
- Nodiadau cyfarfodydd panel symud-ymlaen
- Cynlluniau cyd-gynhyrchu
- Dogfennau ymgysylltiad/ymglymiad â chleientiaid
- Offer cydweithredol (e.e. yr Outcomes Star)
- Tystiolaeth o gyllidebu personol
- Tystiolaeth o bobl yn symud – e.e. negeseuon ebost a chytundebau tenantiaeth
- Tystiolaeth o ddarparwyr cymorth yn gweithio gyda nifer o landlordiaid
- Cynlluniau Tai Personol
- Cynlluniau dosrannu
- Cynlluniau cymorth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

> *"Weithiau dwi wedi bod mewn sefyllfa dda iawn, ac mae [fy ngweithwyr cymorth] yn fy 'nabod mor dda nes eu bod weithiau'n cadw draw am sbel, pan dwi'n gofyn iddyn nhw wneud."*
>
> - Cleient Tai yn Gyntaf yn esbonio sut y gallant fod mewn rheolaeth yng nghyd-destun eu cymorth

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Gan y dylai cleientiaid gael gwahanol elfennau o ddewis a rheolaeth, mae angen rhoi ystyriaeth i'r cyfan ohonynt pan yn defnyddio'r system sgorio hunanwerthuso. Er enghraifft, lle bo gan gleientiaid ddewis a rheolaeth lawn dros eu llety, ond bod y cymorth a roddir iddynt yn gaeth ac anhyblyg (er bod hynny'n annhebygol mewn sefyllfa go iawn), ni allai'r sgôr gyrraedd y trothwy i gydymffurfio â Tai yn Gyntaf (sgoriau hunanwerthuso o 2 neu 3). Byddai'r gwrthwyneb hefyd yn wir – efallai bod gan gleientiaid ddewis a rheolaeth eang dros eu cymorth, ond nad oes ganddynt unrhyw ddewis ystyrlon dros eu llety. Unwaith eto, ni fyddai hyn yn sgorio'n uchel.

### Rheoli disgwyliadau, a dewis ar sail gwybodaeth

Mae yna adegau yn ystod cyfnod person o dderbyn cymorth pan y gall fod angen i'r gweithiwr/wyr cymorth cysylltiedig, yn ogystal â staff eraill o fewn y gwasanaeth a'r tu allan iddo, reoli disgwyliadau eu cleient. Dylai hyn ddilyn y math o gyfathrebu gonest ac agored sydd wrth galon perthnasoedd yn Tai yn Gyntaf. Gall y broses o ddewis llety fod angen y math yma o reoli disgwyliadau. Er, mewn theori, y dylai cleientiaid Tai yn Gyntaf allu chwilio am gartref yn unrhyw le, bydd cyd-destun a natur rhyw ardal arbennig yn cyfyngu ar y dewis hwn – yn yr un modd ag y byddai yn achos unrhyw un arall sy'n chwilio am gartref. Mae rhai mathau o lety (e.e. un ystafell wely) yn fwy prin nag eraill; gall rhai ardaloedd ddioddef yn fwy nag eraill o brinder llety; a gall lleoliadau penodol o fewn rhyw ardal arbennig fod yn brafiach i fyw ynddynt nag eraill.

Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae angen i staff cymorth weithio'n onest gyda'u cleientiaid, gan eu grymuso i wneud dewisiadau doeth yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael. Er enghraifft, os bydd cleient wedi mynegi diddordeb mewn symud i ran arbennig o'r dref, efallai y bydd angen i'r gweithiwr cymorth esbonio y gallai'r amser aros am lety yno fod ddwywaith cyn hired â'r amser sy'n gysylltiedig ag ail ddewis y cleient o leoliad. Yn yr un modd, efallai y bydd raid i'r gweithiwr cymorth esbonio nad yw'r gwasanaeth ond newydd ddechrau gweithio gyda landlord preifat arbennig, ac oherwydd hynny nad yw'r eiddo sydd gan y landlord mewn ardal benodol ar gael eto – a gallai fod yn anodd rhagweld pryd yn union fydd hynny.

Tra bod y math yma o reoli disgwyliadau mewn modd gonest yn fwyaf angenrheidiol yng nghyd-destun dewis llety, mae yna sefyllfaoedd eraill lle gallai fod angen ei weithredu. Efallai bod cleient yn dymuno cael sesiynau cymorth dros frecwast mewn caffi lleol, a'r gweithiwr cymorth yn gorfod esbonio na fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd – er enghraifft – trefniadau gweithio rhan amser. Gellid trafod dewisiadau gwahanol: newid diwrnod y sesiynau, neu drefnu mewnbwn gan weithiwr cymorth arall, er enghraifft. Unwaith eto, dylai'r pwyslais fod ar sicrhau bod y cleient yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, ac yn deall deilliannau neu ganlyniadau dewisiadau penodol, heb wynebu beirniadaeth. Mae cleientiaid Tai yn Gyntaf yn bobl wydn, a dylid parchu yn hytrach na thanbrisio eu gallu i lywio'u ffordd drwy'r math yma o ddewisiadau.

## Ildio dewis a/neu reolaeth

Mae cleientiaid yn ildio dewis a/neu reolaeth yn rhywbeth y dylai gweithwyr cymorth ei ystyried. Fe fydd yna adegau pan fydd cleient yn dymuno, neu ag angen, i'w gweithiwr cymorth gymryd mwy o reolaeth i'w helpu i oresgyn heriau, yn enwedig ar ddechrau eu taith Tai yn Gyntaf, neu os byddant yn dod ar draws anawsterau ar eu llwybr drwy fywyd. Fodd bynnag, dylai gweithwyr cymorth gadw mewn cof yr ethos o 'wneud gyda' nid o 'wneud dros', ac osgoi creu dibyniaeth. Os bydd cleient yn dewis ildio rhyw benderfyniad arbennig, maent yn gweithredu rheolaeth. Cyn belled ag y bo modd iddynt ailgydio mewn rheolaeth, rhaid i'r dewis hwn hefyd gael ei barchu. Er enghraifft, gall cleient ofyn i weithiwr cymorth lenwi ffurflen maent wedi gweithio arni gyda'i gilydd – gan ddweud, i bob pwrpas, 'Dwi'n fodlon dy fod ti'n gwneud hyn i mi.' Ni ddylid cymysgu'r syniad hwn, wrth gwrs, gyda chleientiaid yn gofyn i weithwyr cymorth gyflawni tasgau a allai fod yn amhriodol i'r rôl honno, ond yn optio allan o weithgaredd maent wedi dewis peidio â bod yn rhan ohono ar yr adeg arbennig honno.

## Cyd-gynhyrchu a chydweithredu

Mae'r cysyniadau o gyd-gynhyrchu a chydweithio'n allweddol i Tai yn Gyntaf. Mae cydweithrediad rhwng cleientiaid a gweithwyr cymorth (yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill – ym maes camddefnyddio sylweddau, er enghraifft) yn rhan gynhenid o'r model cymorth a ddisgrifir yn yr egwyddor hon. Yn yr un modd, mae cyd-gynhyrchu fel cysyniad yn golygu bod angen i gleientiaid gael cyfle i ddweud eu dweud ar y modd y caiff prosiect neu wasanaeth ei redeg – oherwydd hynny, dylent gael cyfleoedd i roi adborth neu sylwadau yn y maes hwn.

Gall enghreifftiau ymarferol o bobl yn cael eu grymuso i siapio'r gwasanaeth a gyflenwir iddynt gynnwys y canlynol: cymryd rhan mewn cyfweliadau panelau recriwtio; dylawadu ar gynlluniau gwasanaeth; neu arolygon cleientiaid yn cael eu rhannu'n rheolaidd – cyn belled ag y bo ymateb sefydliad i arolygon o'r fath yn dryloyw, gonest ac ystyrlon. Mae cyd-gynhyrchu a chydweithredu hefyd yn gysyniadau y dylid eu coleddu gan y partneriaid sy'n cyflenwi Tai yn Gyntaf. Gwneir hyn yn glir hefyd yn yr egwyddor sy'n ffocysu ar weithio mewn partneriaethau aml-asiantaeth.

## DULL O YMGYSYLLTU GWEITHREDOL

Dylid gwneud defnydd parhaus o’r dull ymgysylltu gweithredol. Mae hyn yn cychwyn gydag allgymorth dyfal, lle dylai staff fod yn rhagweithiol, dyfalbarhaus a phwrpasol wrth iddynt adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gyda phobl. Dylid parhau gyda’r dull hwn pan fo gan y person denantiaeth, gyda chymorth yn cael ei gynnig mewn gwahanol ffyrdd, hyd yn oed os yw’r ymgysylltiad yn isel.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Mae allgymorth yn gyfyng, neu nid yw’n bodoli o gwbl, ac mae’r gwasanaeth yn dibynnu ar systemau atgyfeirio wedi eu ffurfioli. Os yw cleientiaid neu ddarpar gleientiaid yn araf i ymgysylltu, neu os yw eu lefel o frwdfrydedd dros dderbyn cymorth yn amrywio, caiff cynigion o gymorth eu tynnu’n ôl. Os bydd y person yn newid eu meddwl ar unrhyw adeg, rhaid i’r broses ddechrau o’r dechrau unwaith eto. Nid yw gweithwyr cymorth yn dangos unrhyw hyblygrwydd o ran ymgysylltu â chleientiaid, ac maent yn trefnu apwyntiadau neu gyfarfodydd mewn modd rhagnodedig, waeth beth fo anghenion neu ddymuniadau’r person.

**2** Mae modd i bobl ymgysylltu pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, ond ychydig o allgymorth sydd ar gael i’w hannog a sicrhau bod y llwybrau i ymgysylltiad ar agor. Yn aml, caiff allgymorth ei seilio ar nifer penodol o gyfarfodydd. Mae gan y gwasanaeth feddylfryd o aros i bobl ddod draw i ymgysylltu â’r gwasanaeth, ar ôl gwneud y cysylltiad cyntaf. Mae gweithwyr cymorth yn dangos peth hyblygrwydd wrth ymgysylltu â chleientiaid, ond bydd angen i gleientiaid barhau i ymgysylltu mewn dulliau pur benodol.

**3** Mae gan y gwasanaeth elfen gref o allgymorth, lle cedwir mewn cysylltiad rheolaidd â phobl ac ymgysylltu â hwy beth bynnag fo eu hamgylchiadau cyfredol, a heb yr amod bod raid iddynt ymrwymo i dderbyn cymorth; mae’r gwasanaeth yn barod i symud yn gyflym os yw’r person yn newid eu meddwl ac yn dymuno ymgysylltu. Yn yr un modd, mae ymgysylltiad yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion y cleient yn ystod eu tenantiaeth. Bydd gweithwyr cymorth yn ymgysylltu â chleientiaid mewn ystod o sefyllfaoedd a chyd-destunau, a byddant yn ymdrin â’r sefyllfaoedd hyn yn y dulliau mwyaf priodol. Mae eu ffordd o feddwl yn ffocysu’n gryf ar y syniad ‘ni ddylid gadael neb ar ôl’.

## TYSTIOLAETH

Mae’r ffynonellau sy’n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Polisïau penodol perthnasol – e.e. polisïau allgymorth dyfal
- Swydd-ddisgrifiadau (e.e. os oes yna weithiwr allgymorth penodol)
- Nodiadau o gyfarfodydd y grŵp llywio
- Cynlluniau cymorth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

*“Ar ddiwedd y dydd, mae’r cyfan yn dibynnu ar ymddiriedaeth.”*

– Cleient Tai yn Gyntaf, yn pwysleisio rhan allweddol o’u perthynas gyda’u gweithiwr cymorth

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Mae ymgysylltu’n weithredol yn cyfeirio at ffordd o weithio gyda phobl a ddylai ddigwydd drwy gydol taith Tai yn Gyntaf person. Mae allgymorth dyfal ac ymgysylltu’n weithredol yn aml yn cael eu trafod mewn modd cyfnewidiadwy. Maent yn bynciau gwahanol ond cysylltiedig. Mae allgymorth dyfal yn cyfeirio at waith allgymorth penodol a wneir gan brosiect fel rhan o ddull gweithredol, i ddechrau datblygu perthnasoedd gyda phobl a allai gael budd o Tai yn Gyntaf. Dylid gwneud hyn mewn modd gweithredol, a byddai’n rhan o ddull ymgysylltiad gweithredol o weithio. Mae gweithio mewn modd gweithredol, cadarnhaol ac agored (heb fod yn llethol) yn holl bwysig i sefydlu ymddiriedaeth o’r cam cyntaf.

Yn y bôn, mae gweithio mewn dull gweithredol neu ddyfal yn golygu bod angen i weithiwr cymorth fod yn rhagweithiol, dyfalbarhaus a phenderfynol wrth geisio adeiladu perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda darpar gleientiaid Tai yn Gyntaf. Dylent gadw mewn cof y gallai’r person maent yn ceisio ei gyrraedd fod â nifer o resymau pam nad ydynt am ymgysylltu (mae’r math yma o ddealltwriaeth yn ffurfio sylfaen i ddull trawma-wybodus). Gall rhai o’r rhesymau hyn fod dros dro ac am gyfnod byr, lle gall eraill fod wedi gwreiddio’n ddyfnach.

Tra’n parchu hawl unrhyw un i beidio ag ymgysylltu â rhywun arall, dylai gweithwyr cymorth fod yn barod i roi cynnig ar ddefnyddio gwahanol ddulliau o weithio gyda’u cleientiaid – ar yr un pryd â gweithio mewn ffordd sy’n drawma-wybodus a pherson-ganolog.

Gan ddeall y gallai rhywun fod yn amharod i siarad â hwy ar ryw adeg arbennig, gall gweithwyr cymorth ddweud wrth gleient y byddant yn eistedd mewn caffi cyfagos, petaent yn newid eu meddwl. Mae angen i weithiwr cymorth fod yn amyneddgar a goddefgar. Gallai gweithiwr cymorth awgrymu lleoliad a fyddai, yn eu barn hwy, yn gweud i’r cleient deimlo’n gyfforddus – parc lleol, er enghraifft. Oherwydd y bydd llawer o’r cleientiaid sy’n addas ar gyfer Tai yn Gyntaf eisoes wedi cael eu gadael i lawr gan y system, mae ymgysylltu’n weithredol a dyfal yn golygu esbonio’n glir na fydd yr un peth yn digwydd y tro hwn, ac y bydd y gweithiwr cymorth bob amser yn fodlon cael sgwrs; sut bynnag mae cleient yn teimlo, a pha drawma bynnag maent wedi ei ddioddef, bydd ‘y system’ – a gynrychiolir gan weithiwr cymorth neu weithiwr allgymorth – yno iddynt pan fyddant yn barod. Mae adeiladu perthnasoedd yn cymryd amser, wrth gwrs, a dylai gweithwyr cymorth gadw hyn mewn cof.

Hefyd, gall cleientiaid ymgysylltu’n wahanol o un diwrnod i’r nesaf. Oherwydd y ffaith hon, ac amgylchiadau o ddydd i ddydd, mae’n bosibl y bydd raid i weithwyr cymorth gwrdd â chleientiaid mewn nifer o leoliadau gwahanol – e.e. mewn meddygfa leol i gyd-fynd ag apwyntiad. Yn yr un modd, efallai y bydd cleientiaid yn fwy parod neu’n fwy abl i ymgysylltu ar ryw adeg penodol – e.e. gall pobl newid shifft er mwyn gweld pobl fin nos, neu’n gynnar yn y bore. Mewn gwirionedd, dylai gweithwyr cymorth fod â phecyn o wahanol ddulliau wrth law, i gydnabod y ffaith y gallai gwahanol gleientiaid fod ag anghenion gwahanol a’u bod yn ymgysylltu mewn ffordd wahanol. Mae Cymorth Cymru wedi cyhoeddi deunydd, yn Gymraeg a Saesneg, sy’n cynnwys arfer da ym maes allgymorth dyfal.

Elfen allweddol o ymgysylltu'n weithredol yn gyffredinol yw bod cleientiaid yn cael cynnig sefyllfa sy'n well na'r un y maent ynddi ar hyn o bryd – e.e. efallai bod yn well ganddynt gael llety gwely a brecwast yn hytrach na lle mewn hostel.

Mae ymgysylltu mewn modd dyfal yn golygu sicrhau bod gwahanol sefydliadau, unigolion ac asiantaethau yn ymrwymo i'r un dull, fel ei fod yn datblygu'n ddull aml-ddisgyblaethol o weithio. Wedi dweud hynny, dylid cofio y gallai rhai cleientiaid gael perthynas anodd gyda rhai sefydliadau, ac oherwydd hynny dylai'r cymorth a gynigir fod wedi'i wahanu oddi wrth unrhyw sefydliad neu asiantaeth benodol.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ble fyddai orau i gynnal cyfarfodydd Tai yn Gyntaf. Er enghraifft, cafwyd sefyllfaoedd lle bu raid i dimau Tai yn Gyntaf, nad oedd ganddynt ofod addas mewn swyddfa, ddefnyddio swyddfeydd y gwasanaeth prawf i gwrdd â chleientiaid. Lle bo cleientiaid wedi cael profiadau negyddol gyda'r gwasanaeth prawf, gallai hyn arwain atynt yn teimlo'n anghyfforddus a'u hatal rhag ymgysylltu mor agored ag y bo modd. Dylai dull trawma-wybodus o weithio gymryd yr agweddau hyn i ystyriaeth.

Wrth drefnu i gwrdd mewn caffis neu lyfrgelloedd, rhaid ystyried preifatrwydd. Mae canolfannau galw-i-mewn wedi gweithio'n dda yn yr ardaloedd lle maent yn gweithredu – ond, fel pobman arall, mae yna bethau ymarferol i'w cymryd i ystyriaeth pan yn trefnu'r rhain, yn cynnwys oriau agor a defnydd arall a wneir o'r gofod.

Fel sy'n aml yn wir gyda Tai yn Gyntaf, mae angen cael cydbwysedd wrth ddosrannu adnoddau a staff. Tynnwyd sylw, er enghraifft, at y sefyllfa ganlynol mewn cyfarfod o Rwydwaith Tai yn Gyntaf: mae gwasanaeth Tai yn Gyntaf bychan yn ceisio ymgysylltu â darpar gleient sy'n parhau i ddangos diddordeb ond sy'n gyson yn methu apwyntiadau. Tra bod hyn yn digwydd, mae'r darpar gleient i mewn ac allan o'r carchar, ac yn aml iawn mae'n anodd i staff y prosiect wybod ble mae'r person, a sut orau i gysylltu â hwy.

Yn naturiol, mae staff yn poeni bod yna gleientiaid a darpar gleientiaid eraill sydd yn ymgysylltu ac a allai gael budd o ffocws ac amser y staff. Ar ba bwynt y mae aelodau o'r staff yn rhoi'r gorau i geisio ymgysylltu â'r darpar gleient? Cyn belled ag y bo'r ymrwymiad yn bodoli i gefnogi'r person hwn, petaent yn newid eu meddwl ar unrhyw adeg, a bod rhyw ymdrech yn cael ei gwneud i gynnig apwyntiadau (lle gallai aelod o'r staff, sy'n barod am y posibilrwydd na fydd y cleient yn troi i fyny, ddod â gwaith i'w wneud, neu gynnig gweld cleient arall ar ôl i beth amser fynd heibio), mae ysbryd Tai yn Gyntaf yn amlwg. Mae'n bwysig fod staff yn caei cefnogaeth i'w harbed rhag teimlo'n rhwystredig mewn sefyllfaoedd fel hyn, a'u bod yn derbyn y ffaith y gallai darpar gleientiaid fod wedi cael profiad o drawma sylweddol, gan arwain at sefyllfaoedd heriol yng nghyd-destun ymgysylltu.

Nid yw'r model Tai yn Gyntaf yn disgwyl i dimau sydd eisoes dan bwysau dreulio cyfnodau hir o amser staff yn cysylltu â phobl sydd wedi datgan diddordeb, ond nad ydynt yn ymgysylltu. Y ffordd o feddwl a ddisgwylir gan Tai yn Gyntaf yw 'dydyn ni ddim yn gadael neb ar ôl'. Oherwydd hynny, nid yw enw'r darpar gleient yn cael ei ddileu oddi ar restrau, ac os ar ryw bwynt y byddant yn dechrau ymgysylltu, ni fydd eu diffyg ymgysylltu yn y gorffennol yn cael ei ddal yn eu herbyn. Mae hyn yn gydbwysedd anodd i'w gyflawni, ac i ryw raddau mae'n ymwneud â chyfathrebu'r neges hon: 'byddwn ni'n barod i siarad gyda chi, pa fyddwch chi'n barod i siarad gyda ni.' Yn y pen draw, yn yr un modd ag y dylai cymorth fod yn hyblyg, felly hefyd y dylai ymgysylltiad ac allgymorth fod, gan osgoi bod yn anhyblyg, a chael eu harwain gan y cleient neu'r darpar gleient.

## FFOCWS AR GRYFDERAU, NODAU A DYHEADAU

Mae’r gwasanaeth yn gefnogol a grymusol, gan helpu pobl i ddatblygu mwy o hunan-barch a hyder. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr â phobl i nodi eu cryfderau, nodau a dyheadau mewn perthynas â’u hiechyd, lles, addysg, gwaith a gweithgareddau cymdeithasol neu gymunedol. Caiff pobl eu cefnogi i ddilyn a gwireddu eu dewis o nodau.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Ni chaiff cleientiaid eu hannog i nodi na dilyn eu cryfderau, nodau a dyheadau.

**1** Rhoddir sylw cyfyng i gryfderau, nodau a/neu ddyheadau cleientiaid, ond yn gyffredinol ni chaiff y rhain eu hystyried fel blaenoriaeth, ac nid yw cleientiaid yn derbyn yr offer angenrheidiol i’w galluogi i’w cyflawni.

**2** Caiff cleientiaid eu cefnogi i nodi eu cryfderau, nodau a dyheadau. Cânt eu helpu i wneud cynlluniau, ac i gael mynediad at gyfleoedd, adnoddau neu gefnogaeth a fydd yn eu helpu i’w cyflawni. Caiff camau bach a llwyddiannau eu dathlu.

**3** Caiff cleientiaid eu cefnogi i nodi eu cryfderau, nodau a dyheadau. Cânt eu helpu i wneud cynlluniau, ac i gael mynediad at gyfleoedd, adnoddau neu gefnogaeth a fydd yn eu helpu i’w cyflawni. Caiff camau bach a llwyddiannau eu dathlu. Caiff cleientiaid eu grymuso a’u galluogi i barhau i weithio’n annibynnol tuag at gyflawni eu nodau.

*“Cynnydd ar delerau pwy?”*

- Gweithiwr cymorth, yn gofyn y cwestiwn sy’n mynd at wraidd dull cleient-ganolog. Dylai ‘cynnydd’ gael ei ddiffinio gan y cleient, a’i alluogi gan eu gweithiwr cymorth, yn hytrach na chael ei benderfynu neu ei ddiffinio gan rywun arall

## TYSTIOLAETH

Mae’r ffynonellau sy’n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Polisïau perthnasol sy’n cyfeirio’n benodol at y cleientiaid
- Polisïau’n ymwneud ag ymglymiad cleientiaid
- Cynlluniau cyd-gynhyrchu
- Negeseuon ebost yn rhoi tystiolaeth o ymglymiad y cleient
- Dogfennau ymgysylltiad/ymglymiad cleientiaid
- Rotâu/amserlenni gweithgareddau
- Cynlluniau cymorth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Un agwedd holl bwysig o'r model yw grymuso a galluogi defnyddwyr gwasanaeth Tai yn Gyntaf i ddefnyddio'u nerth, a dilyn eu nodau a'u dyheadau eu hunain.

Yn achos person sy'n dechrau derbyn cymorth gan brosiect Tai yn Gyntaf, dylid deall ei bod yn debygol na fyddant yn gwybod beth yw eu cryfderau, eu nodau a'u dyheadau. Mae'n bosib na fyddant yn gwybod beth maen nhw'n mwynhau ei wneud o ddydd i ddydd. Gallai eu profiadau o ddigartrefedd fod wedi effeithio ar eu hyder a'u hunan-barch. Gallai'r trawma maent wedi cael profiad ohono fod wedi cyfyngu ar y math yma o fewnwelediad.

Oherwydd hynny, mae Tai yn Gyntaf yn darparu cyfle i bobl ddarganfod, neu ailddarganfod, eu sgiliau a'u cryfderau. Un dull o weithio fyddai i brosiect Tai yn Gyntaf gynnig dewis o wahanol weithgareddau i helpu cleientiaid i ddod o hyd i rywbeth sy'n apelio atynt, neu rywbeth yr hoffent weithio ymhellach arno. Gall cleientiaid gymryd rhan mewn gweithgaredd er mwyn cael rhywbeth i'w wneud i arbed diflastod, ac yna berchnogi eu rhan yn y weithgaredd honno – e.e. gall peintio dodrefn ar gyfer eu llety ddatblygu i fod yn weithgaredd gwahanol iawn wrth iddo barhau, a'r cleient yn dechrau ei fynegi ei hun mewn dull mwy creadigol.

Yn yr un modd, gall gweithwyr cymorth gynnal ystod o wahanol sgyrsiau gyda chleientiaid yng nghyd-destun eu nodau – e.e. ydy'r person yn awyddus i ailadeiladu perthynas gyda'u teulu, neu i chwilio am waith? Mae'n holl bwysig bod gweithwyr cymorth yn cymryd eu harweiniad oddi wrth y cleientiaid, a pheidio â 'gorfodi' nodau rhagdybiedig ar y person maent yn ei gefnogi.

## DEFNYDDIO DULL O LEIHAU NIWED

Mae rhanddeiliaid sydd ynghlwm â chyflenwi gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn defnyddio dull o leihau niwed yng nghyd-destun y defnydd o sylweddau ac alcohol. Nid oes raid i bobl ymwrthod rhag defnyddio sylweddau er mwyn cael mynediad at denantiaeth Tai yn Gyntaf neu at gymorth. Mae pobl yn cael cymorth holistaidd i'w helpu i leihau a lleddfu'r niwed i'w hiechyd a'u lles.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Nid yw'r defnydd o sylweddau a/neu alcohol yn dderbyniol yn y llety, a byddai'n arwain at droi person allan o'u llety, fel sy'n cael ei wneud yn glir yn y dogfennau tenantiaeth perthnasol. Nid oes gan staff unrhyw ddealltwriaeth o'r defnydd o sylweddau neu alcohol, na'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â hwy. Ni chaiff y defnydd o sylweddau ac alcohol ei drafod gyda gweithwyr cymorth.

**1** Caiff y defnydd o sylweddau a/neu alcohol yn y llety ei wahardd mewn cytundebau tenantiaeth. Mae gan weithwyr cymorth rywfaint o ddealltwriaeth o'r defnydd o sylweddau ac alcohol, ond gyda chleientiaid maent yn ffocysu'n unig ar ymatal.

**2** Mae'r darparwr cymorth yn defnyddio dull o leihau niwed trwy drafod y defnydd o sylweddau a/neu alcohol yn agored gyda chleientiaid, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae dewisiadau ymarferol i leihau niwed (megis cyfnewid nodwyddau a darparu naloxone) ar gael i gleientiaid, neu cânt eu cyfeirio atynt. Caiff staff cymorth eu hyfforddi i ddeall y defnydd o sylweddau ac alcohol, ynghyd â'r niwed posib y gallant ei achosi. Mae sefydliadau partner arbenigol yn cael eu hintegreiddio i mewn i waith y prosiect. Mae landlordiaid – yn dawel bach, o leiaf – yn derbyn y gall y defnydd o sylweddau a/neu alcohol fod yn digwydd.

**3** Mae'r holl bartneriaid a'r rhanddeiliaid yn deall natur posib cleientiaid Tai yn Gyntaf, y trawma cysylltiedig, a'r defnydd o sylweddau ac alcohol. Mae rhanddeiliaid wedi derbyn hyfforddiant yn y defnydd o sylweddau ac alcohol, ac yn deall y gwahanol fathau o niwed sy'n gysylltiedig â hynny. Darperir sgyrsiau a chymorth o gwmpas lleihau niwed i'r cleientiaid heb unrhyw feirniadaeth na gorfodaeth. Mae'r holl bartneriaid, yn cynnwys landlordiaid, yn deall ac yn cefnogi'r dull hwn, gyda'r partneriaid arbenigol yn cael eu hintegreiddio.

> "Mae'r cyfan yn ymwneud ag adnabod y cleientiaid. Cawsom achos pan oedd glanhäwr wedi dod o hyd i rywun oedd wedi cymryd gor-ddos, a hynny oherwydd eu bod wedi gadael eu hallweddi yn y drws - roedd y glanhäwr yn gwybod bod hynny'n anarferol."
>
> – Gweithiwr cymorth yn esbonio enghraifft benodol o leihau niwed mewn sefyllfa ymarferol

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Polisïau penodol ar leihau niwed/defnydd o sylweddau/alcohol
- Nodiadau o gyfarfodydd y grŵp llywio
- Nodiadau o gyfarfodydd y panel symud-ymlaen
- Negeseuon ebost
- Cynlluniau cymorth
- Cytundebau lefel gwasanaeth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Gall 'lleihau niwed' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf, mae lleihau niwed yn cyfeirio at y syniad canlynol: tra dylid galluogi cleientiaid i wneud eu dewisiadau eu hunain, bydd gweithwyr cymorth a rhanddeiliaid eraill yn gweithio gyda chleientiaid i leihau niwed posibl a achoswyd gan y defnydd o sylweddau ac alcohol, a mathau eraill o ymddygiad. Mae'r gwaith hwn o leihau niwed yn wahanol i ffocysu'n unig ar ymwrthod (er y gallai hynny fod yn nod i'r cleient) a 'phlismona' y defnydd o sylweddau a/neu alcohol. Mae'n debygol y bydd cleientiaid Tai yn Gyntaf wedi cael profiad o gryn drawma, ac mae'r defnydd o sylweddau a/neu alcohol yn ffordd y mae llawer o bobl yn ei dewis fel modd o geisio ymdopi â thrawma.

### Enghreifftiau ymarferol

Gall lleihau niwed mewn modd ymarferol gymryd sawl ffurf. Yn gyntaf, mae trafod y defnydd o sylweddau/alcohol gyda gweithwyr cymorth a phartneriaid arbenigol, gyda'r nod o leihau niwed, yn allweddol. Gallai'r sgyrsiau hyn arwain at staff yn darparu naloxone i gleientiaid. Yn yr un modd, gallai staff prosiect dderbyn hyfforddiant mewn gweini naloxone, yn ogystal â hyfforddiant mewn gweithdrefnau cymorth cyntaf mewn achosion o gymryd gor-ddos neu sefyllfaoedd eraill yn ymwneud ag iechyd. Dylai staff atgyfeirio cleientiaid at ddarpariaeth leol i gyfnewid nodwyddau, os nad yw hynny'n cael ei integreiddio i mewn i'r gwasanaeth.

Bydd nifer o asiantaethau sy'n arbenigo ar sylweddau/alcohol yn rhagnodi meddyginiaethau i gleientiaid. Yn benodol, caiff Methadone, Suboxone neu Subutex, a Buvidal eu defnyddio'n gyffredin fel rhan o'r driniaeth am ddibyniaeth ar opiadau. Gall triniaeth am ddibyniaeth ar alcohol gynnwys y defnydd o Naltrexone neu Disulfiram. Yn ogystal, mae'n bosib rhoi Benzodiazepinau a meddyginiaethau eraill ar bresgripsiwn i bobl sy'n cael cymorth gan Tai yn Gyntaf. Dylai cleientiaid sy'n cael mynediad at y presgripsiynau priodol gael eu galluogi a'u cefnogi gan bartneriaid Tai yn Gyntaf. Gallai hyn fod ar ffurf gweithiwr cymorth yn mynd gyda chleient i gasglu presgripsiwn, neu i fynychu apwyntiad. Yng nghyd-destun cyffuriau ar bresgripsiwn, mae'n bosib y bydd raid trefnu trafodaethau o gwmpas lleihau niwed a risg – e.e. gallai'r cysyniadau gynnwys y gorddefnydd o gyffuriau presgripsiwn, y perygl ychwanegol o gymryd gorddos, a hyd yn oed y perygl o symptomau amddifadu ysgogol acíwt os cyfunir meddyginiaethau ar bresgripsiwn â chyffuriau'r stryd.

Dylid derbyn y bydd angen i landlordiaid, o ba fath bynnag, gael cydbwysedd rhwng dull o leihau niwed a chyflenwi'r model Tai yn Gyntaf, ac anghenion a diogelwch y gymuned gyfagos – mewn gwirionedd, gallai lleihau niwed posibl i bobl sy'n byw'n agos at rywun sy'n defnyddio sylweddau a/neu alcohol gael ei ystyried fel rhan o ddull o weithio sy'n lleihau niwed.

Tra bod Adran 8 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn rheoli'r defnydd o gannabis ac opiwm, a chynhyrchu a chyflenwi cyffuriau a reolir mewn adeiladau, dylid datblygu partneriaethau aml-asiantaeth i alluogi creu dull pragmataidd o leihau niwed a fydd yn galluogi pobl a chanddynt broblemau defnyddio sylweddau i gael cartref drwy Tai yn Gyntaf.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ba driniaethau bynnag sydd ar gael i helpu rhywun i ymdopi â'u, neu fynd i'r afael â'u, defnydd o sylweddau a/neu alcohol. Wrth benderfynu pa driniaeth i'w rhoi, rhaid ystyried agweddau ehangach o fywyd person. Efallai y bydd person ag angen rhywbeth arall i'w wneud os nad ydynt bellach yn treulio amser yn ceisio dod o hyd i arian a phrynu sylweddau. Mae yna berygl y gallai person fod yn ynysig, yn unig, neu hyd yn oed yn isel eu hysbryd. Gallai darparu gweithgareddau, a gofalu bod y gwasanaeth yn atgyfeirio atynt, helpu i liniaru'r teimladau hyn. Mae'n bosib hefyd y bydd angen cymorth seicolegol os bydd person yn dioddef trawma wrth i'w defnydd o sylweddau a/neu alcohol leihau.

## Datblygu perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth i gefnogi lleihau niwed

Y berthynas rhwng gweithiwr cymorth a chleient – fel sy'n cael ei thrafod mewn rhan arall o'r ddogfen hon – sydd wrth galon Tai yn Gyntaf. Gall perthynas gref, gonest, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, ynddi'i hun atgyfnerthu dull o leihau niwed. Ni ddylai rhywun deimlo cywilydd, na dioddef beirniadaeth, oherwydd eu defnydd o sylweddau a/neu alcohol.

Os gall rhywun fod yn onest ynghylch eu defnydd o sylweddau gyda'u gweithiwr cymorth, er enghraifft, yna gall y gweithiwr roi'r cyngor gorau a mwyaf priodol, fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud, neu weithgareddau'n digwydd, ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael. Gorau oll pa mor dda mae gweithiwr cymorth yn adnabod eu cleientiaid, oherwydd byddant yn fwy tebygol o allu rhagweld yr adegau pan fo'r risg o orddos yn uwch.

## Cogio a llinellau cyffuriau

Yn ogystal â gwneud niwed uniongyrchol i iechyd person, gall y defnydd o sylweddau, a'r dull o'u cyflenwi, fod yn niweidiol os ydynt yn arwain at ymelwa ar bobl fregus ac yn achosi niwed i berthnasoedd. Mae cogio, er enghraifft, yn aml yn cael ei gysylltu â chyflenwi sylweddau. Er nad y ddogfen hon yw'r lle iawn i gynnwys trafodaeth estynedig ynghylch cogio (h.y. sefyllfa lle mae llety person yn cael ei 'gymryd drosodd' gan eraill, gyda gwahanol lefelau o ganiatâd gan y tenant, yn aml er mwyn hwyluso cyflenwi cyffuriau), mae'n werth ei nodi yma fel ffenomen a all godi yn achos cleientiaid Tai yn Gyntaf. Dylai'r holl bartneriaid fod yn ymwybodol o arwyddion yn rhybuddio bod cogio'n digwydd, ac mae rhannu diweddariadau a gwybodaeth yn gyson rhwng gwahanol bartneriaid yn holl bwysig. Mae'r canllaw hwn, a gynhyrchwyd yn lleol, yn cyflwyno gwybodaeth am linellau cyffuriau a chogio, a hynny mewn dull clir a hygyrch.

Hyd yn oed os nad yw cogio'n digwydd, dylai partneriaid fod yn ymwybodol o'r potensial i ymelwa sydd o gwmpas camddefnyddio sylweddau – e.e. gallai cysylltiadau cleient wybod pryd maent yn derbyn eu budd-dal, a dewis y diwrnod hwnnw i droi i fyny yn llety'r cleient. Dylai gweithwyr cymorth annog cleientiaid i drafod os ydynt yn cael profiad o broblemau tebyg.

## RHOI CYMORTH I BOBL SYDD Â'R MWYAF O ANGEN AMDANO

Caiff y gwasanaeth ei dargedu at bobl sydd wedi cael sawl cyfnod o ddigartrefedd, a chanddynt profiad o drawma, problemau iechyd meddwl, problemau gyda defnyddio sylweddau a/neu alcohol, a/neu ymgysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n aml wedi cael eu gadael i lawr gan ddulliau a systemau traddodiadol.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

0 Mae'r gwasanaeth yn gallu gwahardd ar sail cymhlethdod, ac yn ceisio osgoi cleientiaid y tybir sydd â'r potensial o fod yn 'risg'. Naill ai does gan gleientiaid ddim profiad o'r problemau a restrir yn y prif destun, neu caiff cleientiaid eu hosgoi gan y gwasanaeth ar y sail bod ganddynt brofiad ohonynt.

3 Mae'r gwasanaeth yn mynd ati mewn modd gweithredol i nodi a gweithio gyda phobl a chanddynt brofiadau sy'n cyd-daro o'r problemau a restrir yn yr egwyddor. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda cheientiaid y byddai modelau mwy traddodiadol sy'n mynd i'r afael â digartrefedd yn ystyried eu bod yn ormod o risg.

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- Rhestrau o aelodau'r grŵp llywio/panel
- Cofnodion cyfarfodydd y grŵp llywio/panel
- Dogfennau atgyfeirio
- Dogfennau sy'n galluogi'r gwasanaeth neu'r panel i asesu pa mor gymhleth yw'r anghenion cymorth – y Chaos Index, er enghraifft, neu ddogfen bwrpasol
- Asesiadau risg
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Mae'n anodd diffinio i bwy yn union mae'r model Tai yn Gyntaf yn gweithio orau. Mae'r term 'anghenion cymhleth' wedi cael ei ddefnyddio'n aml. Er bod llawer o bobl – yn ddealladwy felly – yn cael problem gyda'r term, mae yna ddealltwriaeth eang mai ystyr hyn yw pobl a chanddynt brofiadau sy'n cyd-ddigwydd o ddigartrefedd, trawma, problemau iechyd meddwl, problemau gyda defnyddio sylweddau, a/neu dramgwyddo. Gall ceisio diffinio 'anghenion cymhleth' mewn modd penodol hefyd arwain at broblemau: e.e., trwy awgrymu bod Tai yn Gyntaf wedi'i anelu at bobl a chanddynt gyfuniad penodol o broblemau, mae'r hyblygrwydd sydd mor allweddol i'r model yn mynd ar goll.

Mae dulliau megis y Chaos Index yn ceisio gosod ‘sgôr’ yn seiliedig ar set o broblemau y derbynnir yn eang eu bod yn codi’n aml ymhlith pobl sy’n ddigartref. Unwaith eto, nid oes yr un o’r dulliau hyn yn berffaith. Mae rhai gwasanaethau Tai yn Gyntaf a gwasanaethau digartrefedd wedi datblygu eu dulliau a’u ffurflenni atgyfeirio/asesu eu hunain. Mae profiad y staff proffesiynol sy’n gweithio yn y gwasanaethau hyn yn holl bwysig. Yn yr un modd, bydd deall y cyd-destun lleol yn mynd ymhell wrth helpu rhywun i ddeall pwy sydd ar ben ‘mwyaf cymhleth’ y sbectrwm o fewn ardal benodol.

Roedd y set wreiddiol o egwyddorion Tai yn Gyntaf Cymru yn ffocysu’n drwm ar gysgu ar y stryd fel maen prawf ar gyfer cael mynediad at lety a chymorth drwy gyfrwng y model. Ers hynny, cafwyd cydnabyddiaeth fod cysgu ar y stryd yn llai cyffredin mewn rhai lleoliadau, a bod yna bobl sy’n profi mathau eraill o ddigartrefedd a allai gael budd o Tai yn Gyntaf. Yn ogystal, mae achosion cronig o gysgu ar y stryd yn tueddu i fod yn fwy perthnasol i ddynion nag i fenywod, sy’n fwy tebygol o syrffio soffas neu aros gyda ffrindiau – mathau o ddigartrefedd sy’n llai gweladwy, ond sy’n dal i gael effaith sylweddol ar fywydau, iechyd a lles pobl. Efallai bod achosion lle mae person yn methu gadael cartref anaddas oherwydd bod ganddynt blant, neu bod arnynt ofn eu partner. Mae’n holl bwysig nad yw darparwyr Tai yn Gyntaf yn esgeuluso neu anwybyddu achosion o’r fath, gan nad yw cysgu ar y stryd o angenrheidrwydd yn rhan fawr o hanes bywyd person.

Yn ogystal, mae gwahanol rannau o Gymru’n gweld gwahanol lefelau o gysgu ar y stryd, a gwahanol lefelau neu amlygiadau o broblemau eraill sydd â’r potensial o fod yn gysylltiedig â digartrefedd.

Dylid, felly, ystyried yr egwyddor fel arweiniad, nid fel set anhyblyg o feini prawf. Dylai’r penderfyniad a yw Tai yn Gyntaf yn addas ar gyfer person gael ei gymryd wrth i berthynas ddatblygu rhwng staff gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol cefnogol, a darpar gleientiaid.

## SEICOLEGOL-WYBODUS A GWEITHREDOL GYNHWYSOL

Mae'r gwasanaeth yn seicolegol-wybodus, ac yn cymryd anghenion emosiynol a seicolegol y person i ystyriaeth, ynghyd â'u profiad o drawma. Mae'n weithredol gynhwysol gyda phobl o bob cefndir a hunaniaeth, yn rhywedd-wybodus, ac yn darparu cymorth person-ganolog yn seiliedig ar anghenion pobl, eu cyd-destun, a phwy ydyn nhw.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth na'i bartneriaid yn defnyddio dull seicolegol-wybodus o weithio. Nid yw'r gwasanaeth yn cynnwys pobl o bob cefndir a hunaniaethau, ac nid yw'n cymryd hanes personol nac amgylchiadau'r person i ystyriaeth wrth lunio'r cymorth.

**1** Mae yna rywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth a'i bartneriaid yn defnyddio dull seicolegol-wybodus o weithio. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o hunaniaeth, a hanes personol neu amgylchiadau'r person, ond nid yw hyn yn cael effaith ystyrlon ar y modd y caiff y gwasanaeth ei gyflenwi.

**2** Mae yna dystiolaeth dda i ddangos bod y darparwr gwasanaeth yn defnyddio dull seicolegol-wybodus o weithio. Mae sefydliadau partner yn ymwybodol o effaith trawma a'r angen i fod yn drawma-wybodus. Mae'r darparwr cymorth yn weithredol gynhwysol, mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac maent yn cymryd anghenion person yn seiliedig ar faterion megis rhyw, hil, a thueddfryd rhywiol, i ystyriaeth pan yn cyflenwi cymorth.

**3** Mae yna dystiolaeth gref i ddangos bod y darparwr gwasanaeth a'u partneriaid yn defnyddio dull seicolegol-wybodus o weithio. Mae staff y gwasanaeth a'r holl randdeiliaid partner wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i ddeall a bod yn ymwybodol o hanes personol, trawma a phrofiadau eu cleientiaid, ac maent yn gweithio i sicrhau bod eu rhyngweithiadau'n sensitif ac yn ymatebol i'r profiadau hynny. Mae staff yn rheolaidd yn cymryd rhan mewn ymarfer adlewyrchol ac yn cael cefnogaeth i ymdopi â thrawma mechnïol a digwyddiadau trawmatig. Mae'r gwasanaeth yn weithredol gynhwysol, mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac wrth ddarparu cymorth maent yn cymryd anghenion person i ystyriaeth yn seiliedig ar faterion megis rhyw, hil, anabledd a thueddfryd rhywiol. Bydd y gwasanaeth – mewn modd parhaus a rhagweithiol – yn archwilio'r berthynas rhwng demograffeg y gymuned leol a demograffeg y cleientiaid, ac yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal grwpiau arbennig o bobl rhag cael mynediad at gymorth.

*"Os dwi'n cael diwrnod gwael, mae [fy ngweithwyr cymorth] yn tynnu f'ymennydd allan, ei ailraglennu, a'i roi'n ôl i mewn. Dwi fel y boi wedyn!"*

- Cleient Tai yn Gyntaf, yn esbonio gallu eu gweithwyr cymorth i gymryd eu cyflwr seicolegol i ystyriaeth

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau polisi gwasanaeth
- EDI neu ddogfennau polisi perthnasol eraill
- Cofnodion hyfforddiant staff
- Nodiadau o gyfarfodydd y grŵp llywio
- Dogfennau ymgysylltiad/ymglymiad cleientiaid
- Asesiadau risg
- Cynlluniau cymorth
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Mae'r egwyddor hon, yn ei ffurf wreiddiol a'i ffurf ddiweddaraf, wedi bodoli i amlygu'r ffocws ar waith trawma-wybodus yng Nghymru, a pha mor bwysig yw ei integreiddio'n benodol i mewn i'r model Tai yn Gyntaf. Bydd yr adran hon yn trafod sawl agwedd ar y math yma o gymorth.

### Dulliau seicolegol-wybodus

Mae amgylcheddau seicolegol-wybodus (PIE) yn cymryd i ystyriaeth anghenion emosiynol a seicolegol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u profiad o drawma. Nod PIE yw darparu diogelwch seicolegol ar gyfer pobl, a thrwy hynny wella eu profiadau a'u deilliannau. Mae pum elfen allweddol yn perthyn i PIE:

- **Fframwaith Seicolegol:** Mae gan sefydliadau ymrwymiad strategol a gweithredol i ddulliau seicolegol-wybodus o weithio. Caiff cynllun, datblygiad a gwerthusiad y gwasanaeth eu hysbysu gan fodel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n drawma-wybodus, ac mae diwylliant y sefydliad yn adlewyrchol, tosturiol a pherson-ganolog.
- **Perthnasoedd:** Caiff perthnasoedd o safon uchel eu cydnabod fel y brif elfen ynghlwm â chyflenwi gwasanaeth effeithiol, ac mae gan staff amser i ddatblygu perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Defnyddir dulliau seicolegol-wybodus, hyd yn oed os nad yw profiad o drawma'n wybyddus, a chaiff disgwyliadau eu cyfathrebu mewn modd clir, cyson a pharchus i osgoi ail-drawmateiddio pobl.
- **Yr amgylchedd corfforol a chymdeithasol:** Mae amgylcheddau asesu a chymorth yn ddiogel, croesawgar a hyblyg, gan alluogi rhyngweithio positif, trawma-wybyddus rhwng staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae gan bobl ddewis a rheolaeth dros y modd y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau, ac mae'r amgylchedd corfforol yn cefnogi eu lles.
- **Hyfforddi a chefnogi staff:** Mae staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth i gynyddu eu dealltwriaeth o drawma, a sut y gall hyn effeithio ar ymgysylltiad a pherthynas pobl gyda gwasanaethau. Mae ymarfer adlewyrchol, dysgu parhaus, arolygaeth broffesiynol a chymorth therapiwtig yn sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i weithio mewn modd seicolegol-wybodus.
- **Tystiolaeth a dysgu:** Cesglir tystiolaeth i ddangos effaith dulliau seicolegol-wybodus, a defnyddir hyn i gefnogi dysgu parhaus ac i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau. Caiff gwybodaeth am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ei chasglu'n rheolaidd a'i defnyddio i hysbysu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

## Cymwyseddau proffesiynol: Dull therapiwtig – darparu therapi

Mae'n holl bwysig bod partneriaid sy'n rhan o Tai yn Gyntaf yn deall bod gweithwyr cymorth yn cymryd agwedd therapiwtig tuag at gyflenwi therapi, ond na ddylid disgwyl iddynt fod yn therapyddion, na gweithredu felly. Mae cymorth seicolegol-wybodus a thrawma-wybodus – fel mae'r egwyddor hon yn ei esbonio – yn golygu bod y partneriaid sy'n cyflenwi Tai yn Gyntaf yn cymryd i ystyriaeth y trawmâu posibl a brofwyd gan y cleient, a'u cyd-destun seicolegol.

Er enghraifft, gallai hyn olygu deall bod 'chwarae lan' neu gynnydd mewn tymer ddrwg o gwmpas cyfnod y Nadolig yn deillio o broblemau hanesyddol arbennig y cafodd person brofiad ohonynt ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Yn y modd yma, mae gweithiwr cymorth yn deall nad yw cleient yn fwriadol yn 'bod yn anodd', nac yn mynd allan o'u ffordd i achosi problemau i neb. Ar yr un pryd, nid yw hyn yn golygu y dylid goddef ymddygiad ymosodol, er enghraifft – ond gallai gweithiwr cymorth esbonio bod math arbennig o ymddygiad yn amhriodol, gan symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa ac, yn holl bwysig, 'tynnu llinell' o dan yr ymddygiad y tro nesaf yn byddant yn cwrdd â'r cleient.

Dull therapiwtig o weithio yw hwn, lle byddai therapi go iawn – yn cynnwys mewnbwn gan wahanol sefydliadau – yn dod drwy arbenigwr ar iechyd meddwl. I gymryd esiampl arall – efallai bod cleient LGBTQ+, sydd wedi mynegi diddordeb mewn archwilio ymhellach yr elfen hon o'u hunaniaeth, yn cael gwybod am Ŵyl Balchder/Pride sydd i'w chynnal yn fuan, a'u bod wedi cael cefnogaeth i fynychu'r digwyddiad lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, ni fyddai gweithiwr cymorth y cleient hwn yn darparu therapi yn nhermau, dyweder, trafod 'beth mae'n ei olygu i fod yn LGBTQ+' yn ystod sesiynau cymorth. Mae'r llinell rhwng dull therapiwtig o weithio, a therapi go iawn, yn ei hanfod yn aneglur, a dylai gweithwyr cymorth gael eu grymuso a'u cefnogi gan eu rheolwyr a'u cydweithwyr i ddeall beth a ddisgwylir ganddynt, ac i sicrhau nad ydynt yn cyflenwi mwy nag y dylent, gan arwain at ragor o drawma ym mywydau'r cleient a'r gweithiwr cymorth.

Yn y pen draw, dylai gweithwyr cymorth ddeall a pharchu'r ffiniau o gwmpas eu cymwyseddau proffesiynol. Mae mabwysiadu dull therapiwtig o weithio yn ymwneud â sut y caiff sgyrsiau eu trin a sut y cyflenwir cymorth, yn hytrach na darparu ymyriad clinigol.

## Nodweddion gwarchodedig

Dan gyfraith y DU, mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, neu dueddfryd rhywiol. Gan fod hyn yn ofyniad cyfreithiol, disgwylir y bydd gwasanaeth Tai yn Gyntaf – gan gynnwys partneriaid sy'n rhan ohono – yn glynu at ddeddfwriaeth o'r fath. Wedi dweud hynny, mae'n holl bwysig bod yr holl bartneriaid yn deall y ddeddf sy'n gwarchod y nodweddion gwarchodedig, ac yn cyd-fynd â hi, a bod polisïau'n adlewyrchiad clir o'r gofynion hyn.

## Cynhwysiant gweithredol

Mae'r cysyniad o fod yn weithredol gynhwysol yn mynd y tu hwnt i ddeall a derbyn rhywedd, tueddfryd rhywiol, anabledd, neu hil person – ond mae'n sicr yn eu cynnwys. Byddai'r enghraifft uchod, o gleient hoyw'n cael cymorth i fynychu Gŵyl Balchder leol, yn fath o gynhwysiant gweithredol. Mae cynhwysiant gweithredol yn mynd y tu hwnt i barodrwydd i gefnogi unrhyw un, waeth pwy ydyn nhw, ac yn coleddu agwedd Tai yn Gyntaf o fod dan arweiniad y person trwy rymuso cleientiaid i gyflawni eu nodau eu hunain, a chwrdd â'u hanghenion eu hunain, trwy fod yr hyn ydynt.

Mae darparu Tai yn Gyntaf mewn dull gweithredol gynhwysol yn golygu derbyn y gallai rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd a hil, ddylanwadu ar y ffordd y mae person yn eu gweld eu hunain – yn hytrach na thrin rhywun yn wahanol yn sgil hynny, casglu data personol amhriodol, neu ddarparu therapi'n gysylltiedig â'r pynciau hyn (fel y trafodir uchod).

Dylai gwasanaethau hefyd wneud pob ymdrech i gyfathrebu eu dull o ymdrin â chynhwysiant, er mwyn osgoi unrhyw ganfyddiad nad ydynt yn gynhwysol, ac i annog pobl i deimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu hunaniaethau.

## Cymorth rhywedd-wybodus

Ni ddylid ystyried bod cynnwys y term 'rhywedd-wybodus' yn nhestun yr egwyddor a'r sgorio yn golygu mai rhywedd yw'r unig elfen o berson a allai effeithio ar y modd y cânt eu cefnogi, neu taw rhywedd yw'r unig beth fydd yn effeithio ar nodau, anghenion a phrofiadau person. Fodd bynnag,  mae trafodaethau parhaus ynghylch Tai yng Nghymru i Fenywod yng Nghymru yn awgrymu'n gryf bod menywod yn Tai yn Gyntaf yn tueddu i fod ag anghenion cymorth a thrawmâu sy'n aml yn galw am gymorth gan sefydliadau arbenigol. Mae model penodol o Tai yn Gyntaf i Fenywod yn cael ei ddatblygu yng Nghymru – mae'n cyfeirio at brosiect Tai yn Gyntaf sy'n gweithio'n benodol gyda meynwod yn unig, fel arfer dan arweiniad darparwr cymorth arbenigol i fenywod. Fodd bynnag, mae dull rhywedd-wybodus hefyd yn holl bwysig o fewn prosiectau prif ffrwd Tai yn Gyntaf, lle bydd angen iddynt ystyried yr anghenion cymorth a'r trawmâu penodol a brofir gan fenywod. Dylai'r gwasanaethau hyn ddatblygu perthnasoedd gyda darparwyr cymorth arbenigol i fenywod yn lleol, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a galluogi cleientiaid i gael mynediad at gymorth arbenigol.

## Cymru wrth-hiliol

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n pwysleisio bod gwrth-hiliaeth yn fwy na dim ond peidio â bod yn hiliol. Mae'n ymwneud â bod yn rhagweithiol wrth weithredu'n wrth-hiliol. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys adran yn ffocysu ar gartrefi, ac yn nodi gweithredoedd ar gyfer y sector sy'n gysylltiedig â chynrychiolaeth o fewn y gweithlu a swyddi arweiniol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo cydraddoldeb hil ac yn cwrdd ag anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig, bod gan bobl lais, a'u bod yn gallu dylanwadu ar bolisi. Yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf, gallai hyn gynnwys ystyried sut mae'r gweithlu cymorth yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth maent yn eu gwasanaethu, a yw'r gwasanaeth yn rhagweithol o ran bod yn groesawgar, hygyrch a chynhwysol i bobl ddu, Asiaidd ac o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, a sut mae lleisiau pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael gwrandawiad sy'n arwain at sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd â'u gofynion.

## Dulliau strategol o ymdrin â chynhwysiant

Dylai gwasanaethau sy'n cyflenwi Tai yn Gyntaf gymryd agwedd strategol tuag at gynhwysiant. Mae'n bosib y bydd yna rwystrau i atal pobl rhag cael mynediad at gymorth, a dylai rhan o rôl Tai yn Gyntaf ymwneud â cheisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, a'u goresgyn. Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd cleientiaid wedi profi trawma'n gysylltiedig â hiliaeth systemig, rhywiaeth, ablyddiaeth, homoffobia a thrawsffobia. Bydd gwasanaethau'n ceisio deall y mathau hyn o drawma, a nodi a herio gwahaniaethu systemig.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETHAU AML-ASIANTAETH

O'r cychwyn cyntaf, cynhwysir yr ystod ehangaf o wasanaethau mewn partneriaeth fel bod pobl yn gallu cael mynediad amserol atynt pan fo eu hangen neu eu heisiau. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau defnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd ehangach, gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid tai, a'r gwasanaeth prawf.

## SGORIO HUNANWERTHUSO (0-3)

**0** Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan yr adran dai heb unrhyw ymglymiad na phrynu-i-mewn oddi wrth wasanaethau eraill; mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg heb unrhyw ymglymiad, neu ychydig ymglymiad yn unig, oddi wrth asiantaethau eraill.

**1** Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gydag ychydig o ymglymiad a/neu ymglymiad hwyr oddi wrth wasanaethau eraill, ac mae'n bwriadu rhedeg gydag ymglymiad rhannol, anorffenedig, oddi wrth asiantaethau eraill.

**2** Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gydag ymglymiad a gynlluniwyd oddi wrth wasanaethau eraill, ac mae yna gynllun i gynnwys y gwasanaethau hynny, ond mae'r ymrwymiadau'n gyfyngedig, heb rannu unrhyw femorandwm o ddealltwriaeth na chytundeb lefel-gwasanaeth. Fel arall, mae perthnasoedd gyda gwasanaethau eraill wedi cael eu datblygu dros amser, gan arwain at weithio mewn partneriaethau cryf lle mae pobl y derbyn y gefnogaeth mae arnynt ei hangen mewn modd amserol.

**3** Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gyda dulliau partneriaeth llawn, ac mae perthnasoedd rhwng partneriaid wedi cryfhau dros amser; mae memoranda o ddealltwriaeth a/neu gytundebau lefel-gwasanaeth wedi eu rhoi yn eu lle. Mae yna ymrwymiad parhaus ar ran yr holl randdeiliaid i adolygu'r systemau a pharhau i gefnogi unigolion, ac mae gweithdrefnau atgyfeirio 'cynllun carlam' ar gael i wella mynediad at wasanaethau megis iechyd meddwl

## TYSTIOLAETH

Mae'r ffynonellau sy'n debygol o ddangos tystiolaeth o ddilyn yr egwyddor hon yn cynnwys:

- Dogfennau comisiynu
- Manylebau gwasanaeth
- Cytundebau cydweithio
- Memoranda cyd-ddealltwriaeth
- Cytundebau lefel-gwasanaeth
- Negeseuon e-bost
- Cynlluniau cymorth
- Nodiadau o gyfarfodydd o'r grŵp llywio
- Tystiolaeth o brosesau addasol
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Cyfweliadau gyda chleientiaid

## TRAFODAETH, CYD-DESTUN AC ARFER DA

Dro ar ôl tro, mae tystiolaeth yn cadarnhau pa mor angenrheidiol y mae gwasanaethau eraill. Yn ogystal, mae canllawiau Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwerthaf wedi bod yn glir ynghylch pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, a pha mor sylfaenol y mae hynny i Tai yn Gyntaf. Dros amser, mae'r broses achredu hefyd wedi cael ei haddasu i gydnabod yn fwy amlwg bod yr asiantaethau partner yn gweithio ochr yn ochr â'r darparwyr cymorth a'r landlordiaid i gyflenwi'r model Tai yn Gyntaf.

Dylid cael ymrwymiad strategol i gyflenwi'r model gan ystod o wasanaethau cyhoeddus, a dull dan arweiniad partneriaeth tuag at gynllunio a chyflenwi gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Dylai datblygiad strategol Tai yn Gyntaf gymryd cyd-destun y sector yn gyffredinol i ystyriaeth. Ar adeg ysgrifennu'r geiriau hyn, er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r trawsnewidiad i ddull o ailgartrefu cyflym, dan arweiniad tai, gyda chymorth aml-ddisgyblaethol yn ganolog iddo. Mae Tai yn Gyntaf yn rhan allweddol o'r trawsnewidiad hwn ledled y sector, gan ei fod ar ben mwyaf dwys y sbectrwm o ddulliau o weithio dan arweiniad tai.

Tra bod y gwasanaethau mwyaf amlwg sy'n partneru gyda phrosiectau Tai yn Gyntaf yn tueddu i gynnwys y gwasanaeth iechyd (yn enwedig timau iechyd meddwl a thimau defnyddio sylweddau) a thimau'r gwasanaeth prawf, mae'n werth nodi bod ystod eang iawn o sefydliadau'n gallu, ac yn, gweithio mewn modd effeithiol i ddarparu cymorth yn ôl y model – er enghraifft, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai, yr Adran Gwaith a Phensiynau a staff canolfannau gwaith, ac eraill. Yn aml, mae'n holl bwysig bod cleient a'u gweithwyr cymorth yn cynnal perthynas dda gyda'r meddyg teulu, er enghraifft.

Yn achos rhai pobl sy'n derbyn cymorth, mae gweithwyr cymdeithasol yn debygol o fod yn rhan allweddol o'r daith Tai yn Gyntaf. Mae hefyd yn werth ystyried y ffaith ganlynol – er bod egwyddor arall yn trafod y berthynas rhwng y swyddogaeth rheoli tai a darparu cymorth, dylid gweld partneriaid tai hefyd o fewn cyd-destun yr egwyddor hon; e.e. dylai partneriaid tai allu rhoi tenantiaethau Tai yn Gyntaf ar y 'llwybr carlam' trwy eu blaenoriaethu, ac mae'r berthynas rhwng y darparwr cymorth a'r partneriaid tai yn rhan hanfodol o Tai yn Gyntaf.

Fel yr adlewyrchir yn y sgorio uchod, mae'n werth nodi, lle nad yw gweithio mewn partneriaeth yn cael ei gomisiynu, y gellir datblygu perthnasoedd rhwng sefydliadau dros amser – a gorau po gyntaf y bydd ymwneud y gwasanaethau eraill yn dechrau.

Dylai pob partner sy'n ymwneud â chyflenwi Tai yn Gyntaf ystyried eu bod yn eiriolwyr dros y model ei hun, gan adeiladu prynu-i-mewn ymhlith eu cymheiriaid, a rhannu arfer da lle bo'n briodol. Trwy weithredu yn y dull hwn, gellir cryfhau gwasanaethau wrth i ddealltwriaeth o'r model Tai yn Gyntaf gael ei atgyfnerthu ar draws ystod o sefydliadau, asiantaethau ac unigolion.

RHWYDWAITH TAI'N GYNTAF CYMRU

cymorth cymru

connect • strengthen • influence